**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Rhagfyr 2006**

## GWEITHGAREDDAU DIOGELWCH TÂN CYMUNEDOL MEWN GORSAFOEDD CRIW DYDD

**Adroddiad gan Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I hysbysu aelodau o'r gweithgareddau Diogelwch Cymunedol ar Orsafoedd Criw Dydd cyn ac ar ôl y newid mewn patrymau shifft.

### Cyflwyniad

**2.** Ymgymerwyd â'r adroddiad hwn i gymharu gweithgareddau gwaith cyflawn y Gorsafoedd Criw Dydd cyn y newidiadau i amseroedd cychwyn y shifft criw dydd a'r un gweithgareddau ar ôl y newid.

### Cefndir

**3.** Yng Nghynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu'r 2il Flwyddyn, Eich Gwasanaeth, Eich Diogelwch, Eich Llais adnabuwyd yn Risg Rhif 5 "nad yw ein dyddiau gwaith yn cyd-fynd â'n hamseroedd prysuraf".

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Y Gweithredoedd i reoli'r risg oedd

- I gyflwyno amseroedd cychwyn a gorffen hwyrach i ddiffoddwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd
- Bydd yr oriau wrth gefn gartref yn cael eu gweithio rhwng 10.00 a 12.00 a'r amser ar ddyletswydd o'r orsaf fydd rhwng 12.00 hyd 22.00

**5.** Y gorsafoedd tân effeithiwyd oedd

- Bangor
- Caernarfon
- Bae Colwyn
- Caergybi
- Llandudno

**6.** Daeth y newidiadau i rym o'r 6ed Ionawr 2005.

**Gwybodaeth**

**7.** Gwnaed cyfanswm o 1513 Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref rhwng Ionawr 2004 a Rhagfyr 2004.

**8.** Gwnaed cyfanswm o 1541 Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref rhwng Ionawr 2005 a Rhagfyr 2005.

**9.** Mae Gweithgareddau Diogelwch Cymunedol eraill yn cynnwys:-

- Digwyddiadau
- Sgyrsiau (Cyffredinol, Ysgolion ac Eraill)
- Cwisiau

**10.** Cyfanswm y gweithgareddau Diogelwch Cymunedol eraill wnaed o Ionawr 2004 hyd Rhagfyr 2004 oedd 3684.3 (oriau).

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**11.** Cyfanswm y gweithgareddau Diogelwch Cymunedol eraill wnaed o Ionawr 2005 hyd Rhagfyr 2005 oedd 3842.8 (oriau).

**12.** Mae'r dadansoddiad llawn o Weithgareddau'r Gwasanaeth Diogelwch Tân Cymunedol ar Orsafoedd Criw Dydd ar gyfer 2004-05 a 2005-06 ynghlwm fel Atodiad A ac Atodiad B.

**Goblygiadau Ariannol**

**13.** I ymroi i weithgareddau diogelwch cymunedol, efallai i griwiau gael ei galw gan eu rheolwyr i gynorthwyo gyda'r gweithgareddau hyn ar amseroedd cynharach na'u hamseroedd cychwyn newydd ac felly bu'n angenrheidiol defnyddio goramser i arwain y gweithgareddau.

**14.** Cyfanswm y taliadau goramser ar gyfer y 5 gorsaf criw dydd mewn perthynas â gweithgareddau diogelwch cymunedol o Ionawr 2004 hyd Rhagfyr 2004 oedd £160.32.

**15.** Cyfanswm y taliadau goramser ar gyfer y 5 gorsaf criw dydd mewn perthynas â gweithgareddau diogelwch cymunedol o Ionawr 2005 hyd Rhagfyr 2005 oedd £6368.13.

**Argymhellion**

**16.** Fod aelodau yn nodi'r wybodaeth ddarparir.